**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

COFNODION

CYFARFOD CABINET: 20 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Hefyd: | |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>David Marr, Dirprwy Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa’r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Susan Elsmore |

**DIWEDDARIAD PROJECT YR ORSAF FYSUS GANOLOG**

***Ni fydd Atodiadau 2 – 8 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi’i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys diweddariad ar gynnydd yn y gwaith o gyflawni'r project gorsaf fysus ganolog ac yn cynnwys cynllun aml-ddefnydd newydd yn cynnwys 110,000 tr. sg. o swyddfeydd o safon A* uwchben yr orsaf fysus wedi sicrhau trwy gytundeb menter ar y cyd arfaethedig gyda Llywodraeth Cymru a phartner datblygu'r Cyngor, Rightacres Property Ltd, er mwyn denu cyfle mewnfuddsoddiad mawr.

**PENDERFYNWYD:**

(1) nodi'r cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn misoedd diweddar ar y project Gorsaf Fysus Ganolog a chytuno i'r cynllun aml-ddefnydd arfaethedig

(2) mewn egwyddor cytuno i'r model ariannu newydd arfaethedig yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Rightacres Property Ltd fel y nodir yn yr atodiadau cyfrinachol, 2 a 3, sydd wedi'u hatodi.

(3) dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Datblygiad Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i:

(i) Negodi a chwblhau'r holl agweddau ar gytundeb cytundebol terfynol gyda Llywodraeth Cymru a'r datblygwyr fydd yn darparu'r Orsaf Fysus Ganolog newydd yn unol â'r egwyddorion a nodir m Mhenawdau Telerau Partneriaeth Cyflawni'r Metro a gyflwynir yn Atodiad 3 sy'n gyfrinachol.

(ii) Talu'r costau cyn datblygu i Rightacres Property Ltd fel y nodir yn Atodiad 7 sy'n gyfrinachol.

(4) dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i gyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol wedi atodi i Atodiad 6 proses fframwaith sicrwydd y project Bargen Ddinesig sy'n gyfrinachol i ddechrau'r broses o sicrhau cyfraniad gan y Fargen Ddinesig at gostau uwchraddio Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog.